# ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

**Cynnig i ad-drefnu Canolfan Enfys dan reolaeth Ysgol Pen Coch a chynyddu'r capasiti o 98 i 128 o 1 Ebrill 2025 ymlaen**

**Ionawr 2025**

**Os oes angen copi caled o'r adroddiad hwn arnoch, anfonwch e-bost at 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk gan nodi eich enw a'ch cyfeiriad post. Nodwch a hoffech gael y ddogfen yn y Gymraeg neu Saesneg, neu'r ddwy iaith.**

**Cyngor Sir y Fflint – Addysg ac Ieuenctid**

**Adroddiad Gwrthwynebu**

**Cynnig i ad-drefnu Canolfan Enfys dan reolaeth Ysgol Pen Coch a chynyddu'r capasiti o 98 i 128 o 1 Ebrill 2025 ymlaen**

## 1. Pwrpas

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â'r gofynion dan adran 49 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae hwn yn grynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol – a elwir hefyd yn "Adroddiad Gwrthwynebu".

## 2. Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol, ac wedi derbyn yr holl wybodaeth a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad, penderfynodd y Cabinet ar 15 Hydref 2024 i fwrw ymlaen â chyhoeddi'r cynnig ar ffurf Hysbysiad Statudol am 28 niwrnod o ddydd Iau, 7 Tachwedd 2024, i ddydd Mercher, 4 Rhagfyr 2024.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol yn unol ag Adrannau 41 a 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol ar wefan Cyngor Sir y Fflint ac fe'i gosodwyd ym mhrif fynedfa Ysgol Pen Coch a Chanolfan Enfys. Cafodd pob darpariaeth y mae'r cynnig yn effeithio arni gopïau electronig o'r hysbysiad a manylion ynglŷn â sut i gael copïau caled o'r hysbysiad. Mae'r tabl isod yn nodi rhestr o'r rhai a dderbyniodd gopi o'r Ddogfen Ymgynghori a'r Hysbysiadau Statudol, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

| Gofyniad o dan God Trefniadaeth 011/2018 | |
|---|---|
| Cymuned yr ysgol | Y Pennaeth, athrawon a staff Ysgol Pen Coch.<br><br>Athrawon a staff Canolfan Enfys.<br><br>Disgyblion Ysgol Pen Coch a Chanolfan Enfys.<br><br>Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid (a, lle bo'n bosibl, darpar rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid) disgyblion sy'n mynychu Ysgol Pen Coch a Chanolfan Enfys.<br><br>Y Pennaeth, athrawon a staff Plas Derwen (Uned Cyfeirio Disgyblion). |
| Yr awdurdod cynnal neu awdurdod cynnal arfaethedig ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni; | Cyngor Sir y Fflint sy'n cyflwyno'r cynnig |
| Unrhyw awdurdod lleol arall y mae'n debygol yr effeithir arno – gan gynnwys yn achos darpariaeth benodol ar gyfer Anghenion | |

| | |
|---|---|
| Addysgol Arbennig (AAA) / Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y mae unrhyw awdurdod yn lleoli neu'n debygol o leoli disgyblion â datganiad ynddi; | |
| Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig ar gyfer ardal unrhyw ysgol y mae'n debygol yr effeithir arni; | |
| Unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni; | |
| Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac ysgolion eraill y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys rhai a allai dderbyn unrhyw ddisgyblion wedi'u dadleoli. | Corff Llywodraethu Ysgol Pen Coch<br>Pwyllgor Rheoli Plas Derwen (Uned Cyfeirio Disgyblion) |
| Corff Llywodraethu unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o gael effaith arnynt; | Corff Llywodraethu Maes Hyfryd |
| Gweinidogion Cymru. | |
| Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir / y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion. | Aelodau Seneddol<br>Aelodau o'r Senedd |
| Estyn. | Prif Arolygydd<br>Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| Undebau Athrawon ac undebau llafur staff sy'n cynrychioli'r athrawon ac aelodau eraill o staff mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion hyn. | Cynrychiolwyr NASUWT; NEU; UCAC; ASCL;<br>UNSAIN |
| Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol. | Ymgynghorydd GwE ar gyfer Plas Derwen / Pen Coch |
| Y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol perthnasol. | |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal a wasanaethir / y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion. | Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru |
| Unrhyw Gyngor Tref neu Gymuned ar gyfer yr ardal a wasanaethir / y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion | Cyngor Tref y Fflint<br>Cyngor Tref yr Wyddgrug |
| Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol (mewn ardaloedd perthnasol). | |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol y mae'n bosibl yr effeithid arnynt. | |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a / neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle maent | Blynyddoedd Cynnar Cymru<br>PACEY |

| | |
|---|---|
| yn bresennol. | |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol, unrhyw gorff iechyd neu drydydd sector perthnasol sydd â diddordeb. | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol. | |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno. | |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg. | |
| Arall | Holl Gynghorwyr Cyngor Sir y Fflint |

### 3. Gwrthwynebiadau

Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu **derbyniwyd 0 gwrthwynebiad** gan Gyngor Sir y Fflint mewn perthynas ag ad-drefnu Canolfan Enfys dan reolaeth Ysgol Pen Coch a chynyddu'r capasiti o 98 i 128 o 1 Ebrill 2025 ymlaen.

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013), mae'r Adroddiad Gwrthwynebu hwn ar gael i fudd-ddeiliaid trwy ddolen ar e-bost ac mae hefyd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir y Fflint yn:

www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion

I wneud cais am gopi caled (papur) o'r ddogfen hon, anfonwch e-bost at 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk, neu ysgrifennwch at y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND, neu cysylltwch â'r tîm ar 01352 704015 neu 704134.

### 4. Hysbysiad o'r Penderfyniad

Fel yr amlinellwyd yn ystod y broses ymgynghori, mae'r cynnig i ad-drefnu Canolfan Enfys dan reolaeth Ysgol Pen Coch a chynyddu'r capasiti o 98 i 128 o 1 Ebrill 2025 ymlaen yn gofyn am gymeradwyaeth gan Aelodau Cabinet yr Awdurdod Lleol.

Bydd yr Adroddiad Gwrthwynebu hwn, ochr yn ochr â chopi o'r ddogfen ymgynghori, copi o'r adroddiad ymgynghori, a chopi o'r hysbysiad a

gyhoeddwyd yn cael eu hanfon ymlaen at Aelodau Cabinet ar gyfer penderfyniad.